



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 586 (Cy.50)

2005 No. 586 (W.50)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Rheoliadau Salmonella mewn
Heidiau Dodwy (Pwerau Arolygu)
(Cymru) 2005**

**The Salmonella in Laying Flocks
(Survey Powers) (Wales)
Regulations 2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn rhoi Penderfyniad y Comisiwn 2004/665/EC ar waith, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gynnal arolwg o ba mor gyffredin y mae salmonella ymhlith heidiau dodwy (O.J. Rhif L 303/30) a hynny yn unol â manylebion technegol penodol y cyfeirir atynt yn Erthygl 5 o Benderfyniad y Comisiwn.

These Regulations, which apply to Wales only, implement Commission Decision 2004/665/EC which requires Member States to carry out a survey for salmonella prevalence in laying flocks (O.J. No. L 303/30) in accordance with certain technical specifications referred to in Article 5 of the Commission Decision.

Mae'r Rheoliadau hyn-

These Regulations -

- (a) yn dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr awdurdod cymwys at ddibenion dethol mangreoedd i'w samplu (rheoliad 3);
- (b) yn darparu pwerau i arolygwyr i fynd i fangreoedd lle y mae heidiau o ieir dodwy yn bresennol at ddibenion rhoi Penderfyniad y Comisiwn ar waith ac at ddibenion gorfodi (rheoliad 4);
- (c) yn darparu pwerau i arolygwyr gael gafael ar wybodaeth a dogfennaeth at ddibenion dethol mangreoedd i'w samplu, ac yn darparu pwerau i arolygwyr, pan fyddant yn mynd i fangreoedd, iddynt wneud ymchwiliadau, archwilio a chadw cofnodion, cymryd samplau, gofyn am gymorth, mynd gyda phersonau eraill a chymryd cyfarpar a cherbydau i'r mangreoedd, at ddibenion

- (a) designate the National Assembly for Wales as the competent authority for the purpose of selecting premises for sampling (regulation 3);
- (b) provide powers for inspectors to enter premises on which flocks of laying hens are present for the purposes of implementing the Commission Decision and for the purposes of enforcement (regulation 4);
- (c) provide powers for inspectors to obtain information and documentation for the purposes of selecting premises for sampling and provide powers for inspectors on entering premises to make inquiries, examine and retain records, take samples, require assistance, be accompanied by other persons and take equipment and vehicles on to the premises, for the purpose of carrying out sampling under

cyflawni'r gwaith o gymryd samplau o dan y Rheoliadau hyn (rheoliad 5);

- (ch) yn rhagnodi tramgwyddau a chosbau (rheoliadau 6 a 7); a
- (d) yn darparu i'r awdurdod lleol orfodi'r Rheoliadau ac eithrio pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyfarwyddo fel arall (rheoliad 8).

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi ei baratoi gogyfer â'r offeryn hwn. Gellir cael copïau gan Is-adran Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

these Regulations (regulation 5);

- (d) prescribe offences and penalties (regulation 6 and 7); and
- (e) provide for enforcement by the local authority except where the National Assembly for Wales directs otherwise (regulation 8).

A Regulatory Appraisal has been produced for this instrument. Copies may be obtained from the Animal and Plant Health Division of the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2005 Rhif 586 (Cy.50)

2005 No. 586 (W.50)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

Rheoliadau Salmonela mewn
Heidiau Dodwy (Pwerau Arolygu)
(Cymru) 2005The Salmonella in Laying Flocks
(Survey Powers) (Wales)
Regulations 2005*Wedi'u gwneud*

8 Mawrth 2005

Made

8 March 2005

Yn dod i rym

31 Mawrth 2005

Coming into force

31 March 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, a chan ei fod hefyd wedi'i ddynodi(3) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol i ddiogelu iechyd y cyhoedd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn-

The National Assembly for Wales, being designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act(2) in relation to the common agricultural policy of the European Community and also being designated(3) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act in relation to measures in the veterinary and phytosanitary fields for the protection of public health, in exercise of the powers conferred on it by that section 2(2) hereby makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Salmonela mewn Heidiau Dodwy (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2005, a deuant i rym ar 31 Mawrth 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Title, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Salmonella in Laying Flocks (Survey Powers) (Wales) Regulations 2005 and shall come into force on 31 March 2005.

(2) These Regulations apply to Wales only.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu gan awdurdod lleol, i fod yn arolygydd at ddibenion y Rheoliadau hyn;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol yn ôl y

Interpretation

2. In these Regulations -

"the Commission Decision" ("*Penderfyniad y Comisiwn*") means Commission Decision 2004/665/EC;

"inspector" ("*arolygydd*") means a person appointed to be an inspector for the purpose of these Regulations by the National Assembly for

(1) O.S. 1999/2788.

(2) 1972 p.68.

(3) O.S. 2001/3495.

(1) S.I. 1999/2788.

(2) 1972.c.68

(3) S.I. 2001/3495.

digwydd;

ystyr "iâr ddodwy" ("*laying hen*") yw unrhyw aderyn o'r rhywogaeth *Gallus gallus* sy'n cynhyrchu wyau sydd i'w bwyta gan bobl;

mae "mangreoedd" ("*premises*") yn cynnwys tir gydag adeiladau neu hebddynt, ond nid yw'n cynnwys unrhyw le a ddefnyddir fel annedd yn unig;

ystyr "y Manylebion Technegol" ("*the technical specifications*") yw'r manylebion technegol hynny y cyfeirir atynt yn Erthygl 5 o Benderfyniad y Comisiwn ac sy'n dwyn yr enw "Baseline Study on the Prevalence of Salmonella in Laying Flocks of *Gallus gallus* in the EU"; ac

ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2004/665/EC.

Dethol mangreoedd

3. Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn gyfrifol am dethol y mangreoedd sydd i'w samplu, a hynny yn unol â'r Manylebion Technegol.

Pwerau arolygwyr - Mynediad

4. Os gofynnir i'r arolygydd am ddogfen a ddilyswyd yn briodol sy'n dangos awdurdod yr arolygydd fel arolygydd, a bod yr arolygydd yn dangos y ddogfen honno, bydd gan yr arolygydd yr hawl ar bob adeg resymol i fynd i'r mangreoedd samplu, yn unol â'r manylebion technegol, at ddibenion cymryd samplau fel sy'n ofynnol gan Benderfyniad y Comisiwn ac at ddibenion rheoliad 8.

Pwerau arolygwyr - Cyffredinol

5. At ddibenion cymryd samplau, fel sy'n ofynnol gan Benderfyniad y Comisiwn, ac at ddibenion rheoliadau 3 ac 8, caiff arolygydd-

- (a) holi unrhyw berson a gofyn i'r person hynny ddarparu unrhyw wybodaeth a dogfennaeth, gan gynnwys cofnodion, yr ymddengys i'r arolygydd eu bod yn berthnasol, neu'n debygol o fod yn berthnasol;
- (b) archwilio, cadw neu gopïo unrhyw gofnodion gan gynnwys cofnodion cyfrifiadurol, y maent yn ymddangos i'r arolygydd eu bod yn berthnasol, neu eu bod yn debygol o fod yn berthnasol;
- (c) cymryd a chadw y samplau hynny, gan gynnwys samplau o ieir dodwy, carcasau ieir dodwy a deunydd ysgarthol ac amgylcheddol, a hynny yn unol â'r Manylebion Technegol, yn ogystal â phob sampl arall y bydd yr arolygydd yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddibenion cymryd samplau, fel sy'n ofynnol

Wales, or by a local authority;

"laying hen" ("*iâr ddodwy*") means any bird of the species *Gallus gallus* that produces eggs for human consumption;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means the council or county borough council as the case may be;

"premises" ("*mangreoedd*") includes land with or without buildings but does not include any place used only as a dwelling; and

"the Technical Specifications" ("*y Manylebion Technegol*") mean those technical specifications referred to at Article 5 of the Commission Decision which are entitled "Baseline Study on the Prevalence of Salmonella in Laying Flocks of *Gallus gallus* in the EU".

Selection of Premises

3. The National Assembly for Wales shall be responsible for selection of premises, in accordance with the Technical Specifications, for sampling.

Inspectors' Powers - Entry

4. An inspector shall, on producing, if requested, some duly authenticated document showing the inspector's authority, have the right at all reasonable hours to enter premises which have been selected for sampling, in accordance with the Technical Specifications, for the purpose of taking samples as required by the Commission Decision and for the purposes of regulation 8.

Inspectors' Powers - General

5. An inspector may for the purpose of sampling required by the Commission Decision and for the purposes of regulations 3 and 8 -

- (a) make inquiries of any person and request that person to provide any information and documentation, including records, that appear to the inspector to be, or likely to be, relevant;
- (b) examine, retain or copy any records including computerised records that appear to the inspector to be, or likely to be, relevant;
- (c) take and retain such samples, including samples from laying hens, carcasses of laying hens and faecal and environmental material, in accordance with the Technical Specifications, as well as all other samples that the inspector considers necessary for the purpose of sampling required by the Commission

gan Benderfyniad y Comisiwn;

- (ch) mynd â'r cerbydau hynny a'r cyfarpar hwnnw gydag ef neu hi y mae'r arolygydd yn ystyried eu bod yn angenrheidiol;
- (d) mynd gydag unrhyw berson arall y mae'r arolygydd yn ystyried ei fod yn angenrheidiol; ac
- (dd) ei gwneud yn ofynnol i'r meddiannydd neu'r person sydd â gofal am y mangreoedd hynny, neu unrhyw gyflogai neu asiant i'r meddiannydd neu i'r person sydd â gofal am y mangreoedd, i ddarparu i'r arolygydd y cymorth, y cydweithrediad, yr wybodaeth a'r ddogfennaeth honno, gan gynnwys cofnodion, boed ar gyfrifiadur neu fel arall, y caiff yr arolygydd ofyn amdanynt yn rhesymol.

Tramgwyddau

6. Bydd unrhyw berson-

- (a) sydd yn fwriadol yn rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith;
- (b) sydd yn methu â chydymffurfio â rheoliad 5(dd) uchod, a hynny heb esgus rhesymol;
- (c) sydd yn rhoi unrhyw wybodaeth i unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith, gan wybod bod yr wybodaeth honno yn anwir neu yn gamarweiniol; neu
- (ch) sydd, heb achos rhesymol, yn peidio â darparu dogfennaeth, gan gynnwys cofnodion neu wybodaeth, i unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith, pan fo'r person hwnnw yn gofyn iddo neu iddi wneud hynny;

yn euog o dramgwydd.

Cosbau

7.-(1) Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Os yw corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, ac os profir bod y tramgwydd wedi'i wneud drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi'i briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran-

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall o'r corff corfforaethol;
- (b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod neu ei bod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath; neu
- (c) yn achos partneriaeth, partner neu berson a oedd yn honni i weithredu felly,

Decision;

- (d) take with him or her such vehicles and equipment as the inspector considers necessary;
- (e) be accompanied by such other persons as the inspector considers necessary; and
- (f) require the occupier or person in charge of those premises or any employee or agent of that occupier or person in charge of those premises to provide to the inspector such assistance, co-operation, information and documentation including records, computerised or otherwise, as the inspector may reasonably require.

Offences

6. Any person who -

- (a) intentionally obstructs any person acting in the execution of these Regulations;
- (b) without reasonable cause, fails to comply with regulation 5(f) above;
- (c) provides to any person acting in the execution of these Regulations any information which that person knows to be false or misleading; or
- (d) without reasonable cause, fails to produce documentation, including records, or information, to any person acting in the execution of these Regulations when required to do so by that person;

shall be guilty of an offence.

Penalties

7.-(1) A person who is guilty of an offence under these Regulations shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

(2) Where a body corporate is guilty of an offence under these Regulations, and that offence is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to have been attributable to any neglect on the part of -

- (a) any director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate;
- (b) any person who was purporting to act in any such capacity; or
- (c) in the case of a partnership, a partner or person who was purporting to act as such,

bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol neu'r bartneriaeth, yn euog o dramgwydd, a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(3) At ddibenion paragraff (2), mae "cyfarwyddwr", mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, yn cynnwys aelod o'r corff corfforaethol.

Gorfodi

8.-(1) Awdurdod lleol fydd yn gorfodi'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddo, mewn mathau penodol o achosion neu unrhyw achos penodol, mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac nid awdurdod lleol, sydd i weithredu'r swyddogaeth orfodi a osodir ar awdurdod lleol o dan baragraff (1).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

8 Mawrth 2005

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

any such person, as well as the body corporate or partnership, shall be guilty of the offence and be liable to be proceeded against and punished accordingly.

(3) For the purposes of paragraph (2), "director", in relation to a body corporate whose affairs are managed by its members, includes a member of the body corporate.

Enforcement

8.-(1) These Regulations shall be enforced by a local authority.

(2) The National Assembly for Wales may direct, in relation to cases of a particular description or a particular case, that any duty imposed on a local authority under paragraph (1) shall be discharged by the National Assembly for Wales and not by the local authority.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

8 March 2005

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 p.38.

(1) 1998 c.38

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 586 (Cy.50)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Salmonella mewn
Heidiau Dodwy (Pwerau Arolygu)
(Cymru) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 586 (W.50)

AGRICULTURE, WALES

ANIMAL HEALTH

The Salmonella in Laying Flocks
(Survey Powers) (Wales)
Regulations 2005

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00

W54/3/05

ON

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091084-2



9 780110 910840